

Cofion a Chyfarchion

- Gyda thristwch y daeth y newydd ychydig ddyddiau cyn y Nadolig am farwolaeth Mrs Carol Williams (Tanyfron). Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Hywel, Bethan, Haf ac Elen a gweddill y teulu yn eu profedigaeth annisgwyl. Hyderwn y cânt adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt. Cofiw'n hefyd am eraill o'r ardal sydd mewn profedigaeth a dymunwn yr un noded a nerth iddynt hwythau.
- Anfonwn ein cofion at Amy Evans (Llanfair), Beryl Jones (Nantglyn) a Ceinlys M. Jones (Llansannan) – y tair yn parhau yn yr ysbyty. Cofiw'n hefyd am Glyn Jones (Nantglyn) dreuliodd ychydig ddyddiau yn Ysbyty Glan Clwyd yn ystod yr wythnos, a Meirion Evans (Henllan) sy'n gobeithio cael mynd adref yn y dyddiau nesaf. Cyflwynwn hwy oll yn ein gweddïau gan hyderu y byddant yn profi agosrwydd yr Arglwydd y dyddiau hyn. Cofiw'n hefyd am eu teuluoedd, gan ddiolch am eu gofal a'u hymroddiad hwythau.
- Yn yr un modd, cyflwynwn i ofal yr Arglwydd ein ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal - Mr R. J. Davies (Amber House); Mrs Morfydd Williams (Southern House); Mrs Myra Hughes (Maes Elwy); Miss W J Roberts (Yr Hen Ddeondy); Mrs Menna Owen (The Meadows); Mrs Susannah Williams (Coed Môr); Mrs Mair Roberts (Yr Hen Ficerdy); a Mr Howell Jones (Bryn yr Eglwys). Gweddïwn ar i Dduw eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni y flwyddyn hon eto.
- Llongyfarchiadau i Aled a Tanya Owen (Llansannan) sydd wedi eu bendithio â rhodd o ferch fach arall, Megan Enlli, chwaer i Elin Mair. Diolchwn i Dduw gyda hwy am ei ddaioni.

I ddod

- **Oedfa Dechrau'r Flwyddyn** yng Nghapel Cefn Meiriadog nos Fawrth, Ionawr 15fed am 7.00 gyda'r Parch. Nan Powell Davies yn arwain yr oedfa.
- **Penwythnos plant Gofalaeth Bro Aled (8 - 12 oed) yng Ngholeg y Bala**, Ionawr 25ain-27ain. Pris gwreiddiol: £60 y plentyn a £30 ar gyfer ail blentyn o'r un teulu, ond mae'r Ofalaeth yn rhoi gostyngiad o £10 i bob plentyn ac mae'n bosib y bydd yr Henaduriaeth yn medru cyfrannu ychydig hefyd i leihau'r gost. Rhaid llenwi ffurflen ganiatâd ac anfon blaendal o £10 i'r Coleg **ERBYN DYDD GWENER, IONAWR 11eg** i sicrhau lle.
- **Penwythnos ieuenctid yng Ngholeg y Bala**, Chwefror 12fed-15fed. Pris arbennig o £70 (yn hytrach na £75) i bawb sy'n archebu a danfon eu ffurflenni archeb i mewn **ERBYN IONAWR 15fed**. Fel ag y nodir gyda'r Penwythnos Cynradd, bydd yr Ofalaeth yn cynnig gostyngiad o £10 yr un ac mae'n bosib hefyd y bydd yr Henaduriaeth yn medru cyfrannu ychydig at y gost.
- **Llanw** - Cynhelir Llanw 13 yn Ninbych y Pysgod yn Sir Benfro rhwng 1af-5ed Ebrill 2013. Cofiwch bod angen archebu lle **ERBYN IONAWR 11eg**.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 6^{ed} Ionawr 2013

www.eglwysibroaled.com

www.dawncymru.org

www.llanw.org

Bore da i chi a Blwyddyn Newydd Dda! Gobeithio i chi gael Nadolig bendithiol ac y cewch eich bendithio'n fawr gan yr Arglwydd yn 2013. Yn llaw Duw y mae ein hamser a'n bywyd, pob eiliad ac awr. Nesau at Dduw sydd yn dda i ni a dyna y mae'n ei ddymuno – ein cael yn agos, cael ein hadnabod a bod yn Dduw i ni. “Chwiliaist ac adnabuost fi” yw profiad y Salmwydd (Salm 139) a rhyfedd yw meddwl fod Duw yn ein hadnabod ni mor dda ac eto yn parhau i'n caru a chau ei ofal o'n hamgylch. Wrth i ni ddod fwyfwy i adnabod Duw sylweddolwn ei fod Ef yn ein hadnabod ni yn llwyr a'i fod wedi ein caru cyn ein bod! Beth ydi treiglâd amser i Dduw? Mae Ef yn Arglwydd amser a thragwyddoldeb.

Yr unig ffordd ddiogel i ddod i adnabod Duw ydi trwy ddarllen y Beibl a gwneud hynny yng ngoleuni'r Ysbryd Glân sy'n gallu goleuo'n meddwl a'n hamgyffrediad. Rydym felly am gyflwyno cynllun darllen i'r eglwysi ar gyfer y flwyddyn yma gan gychwyn y Sul nesa! Cawsom gytundeb yng nghyfarfod diwethaf blaenoriaid a diaconiaid y Fro a dyma sut y bwriedir gweithredu'r cynllun gyda'ch cefnogaeth chi. Pob wythnos yn Llais Bro Aled, fe fydd bocs yn cynnwys cyfeiriad at ran o'r Ysgrhythur y bydd disgwyl ei ddarllen yn oedfaon y Sul hwnnw. Cyfrifoldeb yr eglwysi fydd darparu Beiblau ar gyfer y gynulleidfa a gofynnir i Lywydd y Sul naill ai ofyn i'r pregethwr arwain y darlleniad neu arwain y gynulleidfa ei hun yn ystod y cyhoeddiadau. Byddai'n dda cael amser ar gyfer y cyd-ddarllen - naill ai ar ddechrau'r gwasanaeth neu yn ystod amser y cyhoeddiadau. Y nod yw cyd-ddarllen y Beibl a chael dod yn fwy cyfarwydd hefo cynnwys y Beibl wrth i ni ei ddarllen o Sul i Sul a dyfnhau ein hadnabyddiaeth o'r Arglwydd Iesu. Felly dewch â Beibl hefo chi neu gofynnwch am un gan y blaenoriaid.

Beth am ei thrio hi yr wythnos nesa felly? Bydd yn fendith i bawb gobeithio, a gweddïwn y bydd Duw yn bendithio ei Air i ni wrth ei gyd-ddarllen a'i gyd-wrando o Sul i Sul. Rwy'n hollol sicr fy meddwl ei bod hi'n amser ceisio'r Arglwydd a'i ewyllys ar ein cyfer ac fe fydd darllen y Beibl gyda'n gilydd ac yn bersonol yn ffordd o ddod â ni i adnabod yr ewyllys honno. Bydd hefyd yn ffordd i'n cryfhau i wynebu'r dyfodol o dan awdurdod Gair Duw, yng nghwmni Iesu a gyda hyder gostyngedig “yn haeddiannau Calfari.”

Pob hwyl ar y darllen ac os na fedrwydd ddod i'r oedfaon, beth am ddarllen y darnau gartref gan wybod ein bod i gyd, trwy'r Fro yn agor ein calonnau i Air Duw gyda'n gilydd ble bynnag yr ydym?

Diolch i chi bob un am eich cwmni a'ch cefnogaeth yn ystod 2012. Diolch am eich gweddïau a'ch ffyddlondeb yn yr Arglwydd. ac mae Mair a Rhodri a finau yn edrych ymlaen at gael gwasanaethu Duw yn eich plith eto eleni.

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Mercher • Grwpiau Tai **Adnabod** yn cyfarfod.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Llanfair am 11.10 a'r Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Mawrth Bydd cyfle am ginio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Mawrth Cynhelir Oedfa Dechrau'r Flwyddyn yn y Festri am 7.30 o dan arweiniad y Parch Huw Powell Davies.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
Cynhelir cyfarfod Cymdeithas y Beibl yn y Festri am 7.30 yng nghwmni Rhodri Glyn, gyda phaned i ddilyn.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn y Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Llun Cynhelir Cyfarfod Gweddi Dechrau Flwyddyn yn y Groes am 7.00.
- Mawrth Bydd Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn yn Festri Henllan am 7.00. Bydd Cymdeithas Chwiorydd Peniel, Groes a Nantglyn yn cyfarfod ym Mheniel am 7.30.
- Sul nesaf Bydd y Parch John Lewis Jones yn arwain oedfa yn y Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.
- Mawrth Bydd Cymdeithas Chwiorydd Peniel, Groes a Nantglyn yn cyfarfod ym Mheniel am 7.30.
- Sul nesaf Bydd y Parch Irfon Parry yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Nantglyn am 2.00, ac yn ystod yr oedfa, fe ofynnir barn aelodau Nantglyn ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid.
- Mawrth Bydd Cymdeithas Chwiorydd Peniel, Groes a Nantglyn yn cyfarfod ym Mheniel am 7.30.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Mr Dewi Williams yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain.
- Llun Bydd Cyfarfod Gweddi y Chwiorydd yng Nghefn Berain am 7.00. Croeso i bawb.
- Mercher Cynhelir Oedfa Dechrau'r Flwyddyn yng Nghapel Llanefydd am 7.00 gyda'r Parch Euros Wyn Jones yn gwasanaethu.
- Iau Cynhelir Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Berain am 7.00.
- Gwener Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.